Group Meeting Project
Prosiect Cyfarfod Grŵp Teulu Caerdydd
Cardiff Family

Family Circle



Beth yw Cylch Teulu?

Cylch Teulu yw un o brosiectau Tros Gynnal sy'n gweithio mewn partneriaeth â Dinas a Sir Caerdydd i ddarparu Cyfarfodydd Grŵp Teulu

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

Mae Tros Gynnal yn Elusen Gofrestredig: 1099878

Beth yw Cyfarfod Grŵp Teulu?

Cyfarfod Grŵp Teulu yw canolbwynt y broses Cyfarfod Grŵp Teulu. Mae'n cynnig cyfle i wneud cynlluniau ar gyfer plentyn/person ifanc ac yn rhan o broses sy'n hwyluso'r drefn gwneud penderfyniadau o fewn teuluoedd.

Mae Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn cynnig ymagwedd newydd a radical ym maes cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc. Maent yn gofyn i'r teulu dderbyn rôl gyfrifol a phwerus wrth benderfynu sut i ddiwallu anghenion eu plentyn/person ifanc. Penderfyniad pob teulu yw llunio ei gynllun ei hun a bydd y cynllun a lunnir ganddynt yn unigryw.

Mae Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn seiliedig ar fodel o 'gryfder' gan roi ystyriaeth i'r ymagweddau cadarnhaol y gall pob teulu eu cynnig, hyd yn oed pan fydd aelodau rhai teuluoedd yn wynebu neu'n achosi trafferthion. Ni fydd yn bosibl i'r model lwyddo os yw'r ymagwedd broffesiynol yn seiliedig ar fodel 'diffygiol' sy'n cymryd yn ganiataol nad yw teuluoedd sydd mewn trafferthion yn gymwys i gynllunio ar gyfer lles eu plentyn/person ifanc.

Sut y mae'r broses Cyfarfod Grŵp Teulu yn gweithio?

Bydd cydlynydd annibynnol o'r Cylch Teulu yn cwrdd â theuluoedd i egluro'r broses ac yn gwneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod. Bydd y cydlynydd, mewn cydweithrediad â'r teulu, yn penderfynu pryd a ble i gynnal y cyfarfod a phwy fydd yn bresennol. Ystyr 'teulu' yw aelodau'r teulu yn ei ystyr ehangaf ac mae'n cynnwys Tad-cu a Mam-gu, Modrybedd, Ewythrod, Cefndryd a Chyfneitherod, Llys-deulu, a Modrybedd ac Ewythrod eraill, cyfeillion y teulu ac unrhyw un arall a all chwarae rhan. Yna, bydd y cydlynydd yn paratoi aelodau'r teulu ar gyfer y cyfarfod.

Caiff y plentyn/person ifanc gynnig eiriolydd. Mae eiriolydd yn berson a fydd yn gallu gweithio gyda hwy'n bersonol i sicrhau y byddant yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses a dweud yr hyn maent am ei ddweud.

Yn rhan cyntaf y cyfarfod, a gaiff ei gadeirio gan y cydlynydd, gofynnir i'r sawl a gyfeiriodd yr achos ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill (megis gweithwyr cymdeithasol, athrawon ac ymwelwyr iechyd) a wahoddwyd, i egluro: Pa bryderon sydd ganddynt; Beth yw eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau ac unrhyw gymorth y gallant hwy neu eu hasiantaeth eu cynnig. Yna caiff aelodau'r teulu gyfle i holi cwestiynau. Caiff y plentyn/person ifanc gymorth eu heiriolwr.

Unwaith y bydd y cydlynydd yn fodlon bod y teulu'n deall y materion sydd angen eu trafod, gadewir y teulu ar eu pen eu hunain i drafod y materion hynny'n breifat.

Beth fydd yn digwydd wedyn?

Unwaith y bydd y teulu yn fodlon ar eu cynllun, caiff ei ysgrifennu a'i gyflwyno i'r sawl a gyfeiriodd yr achos a'r gweithwyr proffesiynol eraill. Cytunir ar y cynllun ar yr amod na fydd yn creu unrhyw risg i'r plentyn/person ifanc. Yna caiff cytundeb ei lunio er mwyn monitro'r cynllun a chynhelir cyfarfod ymhen tua tri mis wedyn i adolygu'r cynllun.

Pwy all gael Cyfarfod Grŵp Teulu?

Y meini prawf ar gyfer cyfeirio yw:

1. Mae'r plentyn/person ifanc rhwng 0 - 18 oed.
2. Mae'r plentyn/person ifanc fel arfer yn byw o fewn Dinas a Sir Caerdydd.
3. Mae'r plentyn/person ifanc yn cytuno i gyfeirio'r achos a'r ffordd hon o weithio.
4. Mae o leiaf un aelod o'r teulu yn cytuno i gyfeirio'r achos a'r ffordd hon o weithio.
5. Mae angen gwneud penderfyniad neu lunio cynllun oherwydd pryderon difrifol bod y plentyn/ person ifanc yn wynebu risg o gael ei ymylu neu ei eithrio o unrhyw un o'r canlynol:

   Cartref: Er enghraifft: Risg bod y teulu ar fin chwalu; Materion cysylltiad; Ailuno'r teulu; Dychwelyd gartref ar ôl bod mewn gofal; Nodi lleoliad amgen o fewn rhwydwaith teulu/ cyfeillion estynedig.

   Addysg: Er enghraifft: Diffyg presenoldeb; Ymddygiad; Bwlio; Eithrio parhaol neu am gyfnod penodol.

   Cymuned: Er enghraifft: Troseddu; Ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Efallai y bydd y sawl sy'n cyfeirio'r achos am ystyried a yw'r ffordd hon o weithredu o fudd i'w teulu arbennig hwy.

Derbynnir cyfeiriadau gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol a gellir eu gwneud dros y ffôn, dros y ffacs, yn bersonol neu drwy anfon ffurflen gyfeirio drwy'r post.

Pam cael Cyfarfod Grŵp Teulu?

Ar y cyfan, mae ymchwil yn awgrymu bod Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn dangos canlyniadau cadarnhaol, a'r teuluoedd yn dueddol o ddatrys eu trafferthion yn fwy creadigol nag a fyddant gyda rhai a gaiff eu cynnig gan weithwyr proffesiynol.

Credwn drwy gael Cyfarfod Grŵp Teulu

- Caiff teuluoedd eu galluogi i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i'w trafferthion gyda chymorth gweithwyr proffesiynol.
- Mae teuluoedd yn cymryd cyfrifoldeb dros gynllunio mewn ymateb i bryderon pobl eraill.
- Mae teuluoedd yn defnyddio'r nerthoedd a'r adnoddau sydd o fewn eu rhwydwaith eu hunain.
- Mae gan deuluoedd berchnogaeth o'r trafferthion a'r atebion iddynt ac felly maent yn ymroddedig i lwyddiant y cynlluniau.

Os hoffech gael gwybod mwy neu os hoffech wneud cyfeiriad, cysylltwch â:

Ffôn: 029 2034 4681
neu
Ffacs: 029 2034 4679
neu
E-bost: familycircle@trosgynnal.org.uk